# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Medi 2020

Amser: 14.17 - 16.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6496

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS |
| Tystion: | Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Katrin Shaw, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Chris Vinestock, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, nododd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

1.3. Os bydd y Cadeirydd yn gorfod gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, nododd y bydd Dawn Bowden AS yn cymryd yr awenau fel Cadeirydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Craffu ar adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-20

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella
- Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Archwiliadau

2.2. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ofyn y cwestiynau nad oedd amser i'w trafod yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Gohebiaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghylch yr ymchwiliad i COVID-19

3.1.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghylch yr ymchwiliad i COVID-19.

### 3.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

3.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

### 3.3 Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

3.3.a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru).

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 28 Medi 2020

4.1. Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5 Craffu ar adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-20 – trafod y dystiolaeth

5.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 3.

## 6 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – trafod trafodion Cyfnod 2

6.1. Trafododd y Pwyllgor y trefniadau ar gyfer trafodion Cyfnod 2 y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) cyn cytuno arnynt.